# YSGOL GYNRADD ABERAERON

**Pennaeth / Head Teacher : Mrs Catrin Thomas**
YSGOL GYNRADD ABERAERON,
Maes yr Heli,
Ceredigion, SA46 0BQ
Rhif Ffôn / Telephone No. : 01545 570313
Rhif FFacs / Fax No. 01545 570313
e-bost/e-mail: swyddfa@ysgolgynraddaberaeron.ceredigion.sch.uk
safle we / web site: www.ysgolgynraddaberaeron


11eg o Ragfyr 2018

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

**TREFNIADAU YMARFERION Y PANTO**
**YSGOL GYFUN ABERAERON**

**Dydd Gwener – 14/12/18** – Bydd bws yn cludo'r disgyblion i Neuadd Ysgol Gyfun Aberaeron ar ôl cinio. Bydd angen i'r disgyblion cael eu casglu o'r maes parcio sydd **i'r dde** wrth i chi fynd i fyny'r rhiw am 3:30 y.h.

****Mae'r ysgol gyfun wedi gofyn i chi beidio a chyrraedd y maes parcio cyn 3:30 y.h. gan fydd hyn yn amharu ar drefniadau bysiau'r Ysgol Uwchradd ac yn achosi trafferthion iechyd a diogelwch.**

**Dydd Llun 17/12/18 a Dydd Mawrth 18/12/18** – Byddwn yn ymarfer drwy'r dydd. Bydd angen i'r disgyblion cael eu gollwng yn y maes **parcio i'r dde** wrth i chi fynd i fyny'r rhiw rhwng 8:45 a 9:00 ac yna eu casglu o'r maes parcio am 3:30. Bydd staff yno i gwrdd a'r plant.

****Mae'r ysgol gyfun wedi gofyn i chi beidio a chyrraedd y maes parcio cyn 3:30y.h. gan fydd hyn yn amharu ar drefniadau bysiau'r Ysgol Uwchradd ac yn achosi trafferthion iechyd a diogelwch.**

Bydd staff yr ysgol yn gwneud trefniadau ar gyfer plant y Clwb Brecwast a Clwb Adar.

Ar dydd Llun a dydd Mawrth bydd angen:

- Pecyn bwyd ***iachus***, diod ac hefyd ffrwyth i amser chwarae
- Gwisgoedd

Yr ydym wedi gwneud trefniadau bod y plant yn cael bwyta eu pecynnau bwyd yn y ffreutur a chael amser chwarae ar amseroedd gwahanol i blant yr Ysgol Gyfun. Bydd staff yr ysgol hon yn goruwchwylio eich plentyn ar bob adeg yn ystod y dydd.

**PERFFORMIADAU NOS FAWRTH A NOS FERCHER**
**NEUADD YSGOL GYFUN ABERAERON**

Bydd angen i'r disgyblion **gyrraedd y Neuadd yn eu gwisgoedd erbyn 6:00y.h**. Bydd staff yno i gwrdd a'r plant.

Yn gywir,

Mrs C.Thomas
(Pennaeth)